# Adolygiad o Gynllunio'r Gweithlu yng Nghyngor Sir Powys

Blwyddyn archwilio: 2018-19

Dyddiad cyhoeddi: Gorffennaf 2020

Cyfeirnod y ddogfen: 1865A2020-21

Paratowyd y ddogfen hon i'w defnyddio'n fewnol gan Gyngor Sir Powys fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol ag Adrannau 17 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, Adran 18 Mesur Llywodraeth Leol Cymru 2009 ac Adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol na staff Archwilio Cymru yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol nac unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y cod ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae'r Cod Adran 45 yn nodi'r arferion a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru trwy e-bostio swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg ac yn Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Roedd y tîm a gyflwynodd y gwaith yn cynnwys o dan gyfarwyddyd Lisa Williams, Gareth W. Lewis, a Sara Leahy, o dan gyfarwyddyd Huw Rees.

# Cynnwys

Mae cynllunio gweithlu cryfach yn golygu bod y Cyngor mewn sefyllfa well i gefnogi ei amcanion trawsnewid.

Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Adroddiad manwl

Mae cynllunio gweithlu cryfach yn golygu bod y Cyngor mewn sefyllfa well i gefnogi ei amcanion trawsnewid 6

Drwy ei ddull gweithredu newydd mae'r Cyngor wedi gwella ei ddealltwriaeth o'i weithluoedd presennol a gweithluoedd y dyfodol 6

Mae cynlluniau cynhwysfawr ar gyfer y gweithlu yn eu lle erbyn hyn, ond mae eu hansawdd yn amrywio 7

Mae'r Cyngor yn bwriadu adolygu ei gynlluniau gweithlu ac mae wedi nodi meysydd i wella'r broses gyffredinol 8

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Yr hyn a adolygwyd gennym a pham

1 Mae Cyngor Sir Powys (y Cyngor) wedi nodi ei ddyheadau ar gyfer y dyfodol yn ei ddogfen trawsnewid corfforaethol: 'Gweledigaeth 2025'. Mae'r Cyngor wedi anelu ymhellach at weddnewid ei weithlu a sicrhau bod gan y gweithlu'r sgiliau, yr ymddygiadau a'r strwythurau cywir i gefnogi'r gwaith o gyflawni gweledigaeth 2025.

2 Roedd y gwaith archwilio blaenorol a wnaed yn y Cyngor yn ystyried y rhaglen drawsnewid ehangach. Mewn adolygiad blaenorol, daethom i'r casgliad bod 'Y Cyngor yn gwneud trawsnewid yn flaenoriaeth uwch, ond mae angen iddo ddiffinio a chyfleu ei weledigaeth a'i raglen ar gyfer trawsnewid yn well a sicrhau bod y camau gweithredu a gynllunnir o raddfa a chyflymder digonol.' Bydd ein hadolygiad yn adeiladu ar y gwaith hwn drwy edrych yn fanylach ar agwedd gweithlu rhaglen drawsnewid y Cyngor.

3 Cynhaliwyd yr adolygiad hwn i geisio sicrwydd ynghylch dull cynllunio gweithlu'r Cyngor, gan gynnwys a yw'r Cyngor wedi:

   a. cyflwyno cynllunio'r gweithlu ar lefelau strategol a gweithredol;
   b. ymgorffori cynllunio'r gweithlu fel rhan o broses cynllunio busnes y Cyngor; ac wedi
   c. creu cynllun gweithlu cadarn sy'n egluro'r cyfeiriad y mae angen iddo ei gymryd i drawsnewid strwythur, ymddygiadau a galluoedd ei staff yn yr hirdymor i gael sefydliad darbodus, clir a hyblyg.

4 Cynhaliwyd y prosiect drwy gyfuniad o adolygiadau o'r dogfennau, arsylwadau, grwpiau ffocws a chyfweliadau â swyddogion a chynghorwyr. Roedd y grwpiau ffocws yn cynnwys sesiynau ar wahân gyda phenaethiaid gwasanaethau, detholiad o reolwyr â chyfrifoldeb am weithredu a defnyddio cynllunio'r gweithlu a grŵp ffocws gyda detholiad o aelodau tîm Gweithlu a Datblygu Sefydliadol (WOD) y Cyngor sy'n ymwneud â chynllunio'r gweithlu.

5 Cynhaliwyd yr adolygiad rhwng Hydref 2019 a Mawrth 2020.

### Yr hyn a welsom

6 Ceisiodd ein hadolygiad ateb y cwestiwn: **A yw'r Cyngor wedi datblygu cynllun gweithlu cadarn ac effeithiol?**

7 Yn gyffredinol, canfuwyd bod cynllunio gweithlu cryfach yn golygu bod y Cyngor mewn gwell sefyllfa i gefnogi ei amcanion trawsnewid.

8 Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

   a. drwy ei dull gweithredu newydd mae'r Cyngor wedi gwella ei ddealltwriaeth o'i weithluoedd presennol a gweithluoedd y dyfodol;

b. mae cynlluniau cynhwysfawr ar gyfer y gweithlu yn eu lle erbyn hyn, ond mae eu hansawdd yn amrywio; ac

c. mae'r Cyngor yn bwriadu adolygu ei gynlluniau gweithlu ac mae wedi nodi meysydd i wella'r broses gyffredinol.

## Cynigion ar gyfer Gwella

**Arddangosyn 1: cynigion ar gyfer gwella**

Mae'r tabl isod yn nodi'r cynigion ar gyfer gwella a nodwyd gennym yn dilyn yr adolygiad hwn.

| **Cynigion ar gyfer gwella** | |
| --- | --- |
| C1 | Bod y Cyngor ystyried gwelliannau i'r agweddau cyfathrebu ar gynllunio'r gweithlu, gan gynnwys:<br>• egluro sut y bydd y tair dogfen lefel strategol yn cael eu cyfleu i'r sefydliad ehangach;<br>• parhau i ymgysylltu'n barhaus â'r gweithlu ehangach i gyfathrebu gweledigaeth gorfforaethol a lefel gwasanaeth y gweithlu; a<br>• chynyddu'r ymgysylltiad gan wasanaethau gyda'r sesiynau a hwylusir. |
| C2 | Dylai'r Cyngor weithredu'r meysydd gwella y mae wedi'u nodi:<br>• sicrhau bod pob un o'r 12 cynllun gweithlu lefel gwasanaeth yn gyson ac yn gynhwysfawr;<br>• cwblhau'r dadansoddiad o'r farchnad lafur leol;<br>• cwblhau ymarfer ffurfiol o'r gwersi a ddysgwyd;<br>• cadarnhau'r trefniadau cynllunio olyniaeth;<br>• gwella adnoddau cynllunio'r gweithlu; ac<br>• integreiddio'r cynllunio gweithlu ymhellach gyda'r Cynlluniau Busnes Integredig. |

# Adroddiad manwl

## Mae cynllunio gweithlu cryfach yn golygu bod y Cyngor mewn sefyllfa well i gefnogi ei amcanion trawsnewid

### Drwy ei ddull gweithredu newydd mae'r Cyngor wedi gwella ei ddealltwriaeth o'i weithluoedd presennol a gweithluoedd y dyfodol

9 Wrth ddod i'r casgliad hwn, nodwyd y canlynol:

- Mae trawsnewid gweithlu'r dyfodol yn un o naw prosiect o fewn rhaglen gweddnewid Gweledigaeth 2025 y Cyngor. O fewn prosiect y Cyngor i weddnewid ei weithlu yn y dyfodol, mae cynllunio'r gweithlu yn un o'r colofnau allweddol. Mae hyn yn dangos y pwysigrwydd y mae'r Cyngor wedi'i roi i gynllunio'r gweithlu wrth helpu i drawsnewid.
- Mae'r Cyngor wedi dangos dealltwriaeth o bwysigrwydd cynllunio'r gweithlu ac wedi asesu'r gweithlu fel risg uchel ar ei Gofrestr Risg Strategol. Mae'r Cyngor yn gweld y newidiadau hirdymor sylweddol yn y boblogaeth o oedran gweithio yn effeithio ar ei allu i recriwtio a chadw cyflogeion. Mae'r camau lliniaru o fewn y gofrestr risg a ffocws tymor hwy cynllunio'r gweithlu yn dangos bod y Cyngor yn cymryd camau priodol i helpu i fynd i'r afael â'r risg hwn.
- Datblygodd y Cyngor ddull newydd saith cam o gynllunio'r gweithlu ar gyfer 2019-20. Mae'r Cyngor yn cydnabod mai hon oedd y cylch cyntaf o gynllunio'r gweithlu gan ddefnyddio'r fformat newydd. Mae dull newydd y Cyngor wedi ei alluogi i feithrin dealltwriaeth o'i weithlu a'i amgylchedd, gan gynnwys dadansoddi cyd-destun ehangach newidiadau a fydd yn effeithio ar y gweithlu yn ogystal â dadansoddiadau data o broffil ei weithlu presennol ac yn y dyfodol.
- fel rhan o'r dull newydd, cynigiodd y tîm Gweithlu a Datblygu Sefydliadol (WOD) sesiynau wedi'u hwyluso i gefnogi gwasanaethau drwy'r broses newydd. Fodd bynnag, nid oedd pob gwasanaeth wedi ymgysylltu â'r sesiynau wedi'u hwyluso cymaint ag y gallent.
- o'r wybodaeth a gynhwyswyd yn y 12 cynllun lefel gwasanaeth, mae'r Cyngor wedi datblygu tair dogfen strategol allweddol:
  – Y Cynllun Gweithlu Strategol – sy'n nodi gweledigaeth y Cyngor ar gyfer ei phobl, yn amlinellu cyfansoddiad ei weithlu presennol ac yn trafod ei gynlluniau;
  – Y Cynllun Corfforaethol ar gyfer Adnoddau'r Gweithlu – sy'n rhoi manylion y lefel gwasanaeth a'r camau gweithredu ar lefel gorfforaethol a nodir yn y broses cynllunio gweithlu a gaiff eu monitro gan fwrdd gweithlu'r dyfodol; a'r

- Cynllun Datblygu Gweithlu Corfforaethol - sy'n amlinellu cynlluniau'r Cyngor ar gyfer bodloni'r meysydd datblygu a nodwyd ganddo yn y Dadansoddiadau o Anghenion Hyfforddiant lefel gwasanaeth (TNA).

- Mae swydd rheolwr cynllunio gweithlu strategol ar y cyd yn bodoli i hwyluso cydweithio rhwng Bwrdd Addysgu Iechyd Powys a Chyngor Sir Powys. Nod y swydd yw mynd i'r afael â'r heriau tymor hwy sy'n wynebu gweithluoedd iechyd a gofal cymdeithasol ym Mhowys gan gynnwys recriwtio, cadw, hyfforddiant ac addysg y gweithlu. Mae aliniad clir rhwng y cyngor a'r Bwrdd Iechyd o ran cynllunio'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol.

## Mae cynlluniau cynhwysfawr ar gyfer y gweithlu yn eu lle erbyn hyn, ond mae eu hansawdd yn amrywio

10 Wrth ddod i'r casgliad hwn, nodwyd y canlynol:

- Mae'r Cyngor wedi gweithredu'n gyflym i gynhyrchu 12 o gynlluniau lefel gwasanaeth yn ystod blwyddyn gyntaf ei ddull cynllunio gweithlu newydd. Mae'r dull newydd hwn yn welliant sylweddol ar y broses flaenorol, a oedd yn cynnwys bron 40 o gynlluniau gwahanol ar draws gwasanaethau ac fe'i disgrifiwyd gan y bobl y siaradwyd â hwy fel 'ymarfer ticio bocsys'.
- Mae'r dull saith cam o gynllunio'r gweithlu wedi cynnwys proses drylwyr gyda'r elfennau a'r camau canlynol:
  - deall y meysydd busnes neu wasanaeth a'u cyfeiriad;
  - dadansoddi'r gweithlu;
  - nodi'r bwlch;
  - cynllunio'r model / gofynion i ateb y galw a llenwi bylchau;
  - recriwtio, cadw a chynllunio olyniaeth;
  - llunio cynllun hyfforddi a datblygu; a
  - datblygu cynllun y gweithlu a'i fonitro.
- Rhan o rôl y tîm Gweithlu a Datblygu Sefydliadol (WOD) yw cefnogi'r broses o gynllunio'r gweithlu; mae'r tîm yn asesu pob cynllun yn erbyn rhestr wirio sicrhau ansawdd, yn darparu offer ar gyfer cynllunio'r gweithlu, ac yn hwyluso sesiynau i gynnig arweiniad i reolwyr. Mae'r sesiynau wedi'u hwyluso yn galluogi staff i ddeall cynllunio'r gweithlu, eu helpu i ddadansoddi eu gweithluoedd presennol a rhai'r dyfodol, a herio eu barn a'u syniadau. Er bod ymgysylltiad gan wasanaethau yn amrywio ar gyfer y flwyddyn gyntaf, mae'r tîm Gweithlu a Datblygu Sefydliadol yn bwriadu cynnig sesiynau wedi'u hwyluso ymhellach ar gyfer y cylch nesaf o gynllunio gweithlu yn 2020-21.
- Mae'r broses cynllunio gweithlu newydd wedi caniatáu i feysydd gwasanaeth gymryd camau i lenwi'r bylchau a nodwyd. Mae'r dull newydd wedi galluogi gwasanaethau i nodi swyddi 'anodd eu llenwi' a datblygu strategaethau i recriwtio a chadw gweithwyr, er enghraifft drwy fentrau 'tyfu ein hunain'.

Mae'r Cyngor hefyd wedi datblygu cronfa brentisiaeth fel dull o recriwtio gweithwyr newydd.

- Roedd y bobl y siaradasom â hwy yn ymwybodol o'r angen i gynllunio ar gyfer olyniaeth. Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor wedi datblygu dull ffurfiol eto o gofnodi'r camau hyn. Mae'n bwriadu datblygu trefniadau cynllunio olyniaeth eang yn ystod y cylch nesaf o gynllunio gweithlu yn ystod 2020-21.
- Mae'r Cyngor yn cydnabod nad yw pob un o'r 12 cynllun gweithlu lefel gwasanaeth o'r flwyddyn gyntaf yn gwbl gadarn. Mae'r 12 cynllun yn cynnwys lefelau amrywiol o wybodaeth a dealltwriaeth am y meysydd gwasanaeth perthnasol. Mae'r Cyngor wedi nodi nifer fach o gynlluniau sy'n gofyn am waith pellach ac mae'n bwriadu sicrhau bod pob un o'r 12 cynllun yn cynnwys lefel fwy cyson o wybodaeth yn y dyfodol.
- Mae tîm Gweithlu a Datblygu Sefydliadol wedi cwblhau ymarfer Dadansoddi Anghenion Hyfforddi cynhwysfawr ar lefel gwasanaeth. Mae'r Dadansoddiadau Anghenion Hyfforddi lefel gwasanaeth wedi caniatáu i'r Cyngor ddwyn ynghyd a mynegi ei anghenion datblygu corfforaethol mewn un crynodeb cyffredinol.
- Mae'r broses cynllunio gweithlu yn cydredeg â phroses Cynllunio Busnes Integredig (IBP) newydd y Cyngor. Mae'r Cyngor wedi nodi'r angen i gryfhau ymhellach y cysylltiad rhwng cynllunio'r gweithlu a'r broses Cynllunio Busnes Integredig ar gyfer yr ail gylch cynllunio gan ddefnyddio'r dull newydd yn ystod 2020-21.

## Mae'r Cyngor yn bwriadu adolygu ei gynlluniau gweithlu ac mae wedi nodi meysydd i wella'r broses gyffredinol

11 Wrth ddod i'r casgliad hwn, nodwyd y canlynol:

- Roedd dull cynllunio gweithlu saith cam y Cyngor yn cynnwys cam ar 'ddatblygu'r cynlluniau a monitro'. Roedd cynlluniau'r gweithlu yn cynnwys camau i'r meysydd gwasanaeth eu cymryd i adolygu a datblygu canlyniadau cynllunio'r gweithlu.
- Mae staff yn cydnabod bod y dull gweithlu newydd yn golygu y gellir trafod cynllunio'r gweithlu yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn. Dywedwyd wrthym y bydd y gwasanaethau'n cynnal cyfarfodydd i fonitro datblygiad eu cynlluniau gweithlu gweithredol. Nododd y gwasanaethau hefyd fod cymorth ar gael gan bartneriaid busnes adnoddau dynol yn y cyfarfodydd lefel gwasanaeth hyn.
- Mae gan y Cyngor fwriad clir i ailadrodd y broses o gynllunio'r gweithlu. Buom yn siarad â staff y Cyngor ar draws y sefydliad a oedd yn ymwybodol y byddai'r broses yn cael ei hailadrodd ar gyfer 2020-21.
- Er nad yw'r Cyngor wedi cwblhau ymarfer dysgu gwersi ffurfiol ar gynllunio'r gweithlu eto, mae wedi adolygu a diwygio ei ddull 2019-20 ac wedi newid y broses cynllunio gweithlu o saith cam i bedwar cam ar gyfer 2020-21. Mae'r

Cyngor hefyd yn cydnabod bod problemau gyda thempledi cynllunio'r gweithlu. Fodd bynnag, mae ganddi gynlluniau i wella'r adnoddau ac i ddarparu fformat sy'n haws ei ddefnyddio. Mae hyn yn dangos bod y tîm Gweithlu a Datblygu Sefydliadol wedi gwrando ar yr adborth gan y gwasanaethau.

- Nid yw'r Cyngor wedi dadansoddi ei farchnadoedd llafur lleol cyfredol eto ond mae ganddo gynlluniau i gwblhau'r gwaith hwn yn ystod 2020 mewn cydweithrediad â'r Rheolwr Cynllunio Gweithlu Strategol ar y Cyd.
- Mae'r Cyngor a'r Bwrdd Iechyd wedi nodi'r angen i symleiddio eu dull strategol o gynllunio'r gweithlu ar y cyd ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Mae gan y ddau gynlluniau i symud tuag at broses pedwar cam, a fydd yn helpu ymhellach i gysoni dull y ddau sefydliad o weithio.
- Mae Bwrdd Dyfodol y Gweithlu yn monitro'r modd y cyflawnir y camau gweithredu corfforaethol sy'n deillio o'r cynlluniau gweithlu drwy gyfarfodydd bob chwe wythnos. Yn ei dro, mae Bwrdd Dyfodol y Gweithlu yn adrodd yn chwarterol i fwrdd trawsnewid cyffredinol Gweledigaeth 2025.

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Cardiff CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru/cy

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg ac yn Saesneg. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.